


NANNEY, RICHARD (1691 - 1767), clericwr efengylaidd

Enw: Richard Nanney
Dyddiad geni: 1691
Dyddiad marw: 1767
Plentyn: Catherine Ellis (née Nanney)
Plentyn: Richard Nanney
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr efengylaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd yn 1691, yn un o deulu Cefndeuddwr ger Trawsfynydd, cangen o gyff hynafol [Nannau](#). Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn 1710, graddio'n B.A. yn 1714, M.A. yn 1719; penodwyd ef yn ficer Clynnog yn 1718, ac yn rheithor Llanaelhaearn yn 1725; tystia Foster ei fod hefyd yn un o ganoniaid Bangor. Yr oedd iddo elfen fawr o ryddfrydigrwydd ysbryd, nodwedd naturiol ddigon pan gofir bod ei fam yn ferch i [Richard Edwards](#) o Nanhoron, prif sgwïer Piwritanaidd y sir yn oes yr Adferiad, bod Catrin ei chwaer yn briod â'r meddyg Knight o Gaernarfon, teulu eto â llawer o gysylltiadau Ymneilltuol iddynt, a bod ei wraig hithau yn un o Wyniaid y Wern ger Penmorfa, teulu rhyddfrydig odiaeth mewn gwleidyddiaeth. Daeth Nanney yn un o brif gefnogwyr ysgolion [Griffith Jones](#) (yng Nghlynnog cynhelid yr ysgol yn aml yn eglwys y plwyf, ond weithiau mewn tai anghysbell yn y cyrion); y mae amryw o'i lythyrau yn *Welch Piety*, i gyd yn tystio i werthfawredd addysg a'r modd gorau i'w gyfleu, rai ohonynt yn fawr eu clod i'r hen ysgolfeistr Thomas Gough (gan fod Gough wedi hyfforddi [Robert Jones](#), Rhoslan, yn ei dro, nid yw'n syn darllen teyrnged huawdl [Robert Jones](#) i Nanney yn *Drych yr Amseroedd* , geiriau a ddyfynnwyd yn *Hanes Methodistiaeth Cymru, Cyff Beuno*, a *Hanes Meth. Arfon*). Cyfranogodd yn bur helaeth o ysbryd y diwygiad - er na chyfrifid ef ymhlith y clericwyr Methodistiaidd fel [Griffiths](#) (Nanhyfer) a [Jones](#) (Llan-gan) - a darllenir am dyrfaoedd o bobl yn gwranddo arno'n pregethu yn eglwys Clynnog, amryw ohonynt yn dod o'r plwyfi cylchynol, a delir yn wrthwyneb glaearineb dechrau'r yrfa ac ymroddiad duwiolfrydig ei flynyddoedd olaf. Nid oedd pethau'r byd hwn yn mennu fawr arno; diofal ydoedd o'i anifeiliaid - cofier ei fod yn dal tir Elernion ger Llanaelhaiarn (os nad y Fachwen hefyd am gyfnod), stad fechan yr oedd gafael cadarn ynddi gan deulu'r wraig - ac (meddai [Robert Jones](#)) nid adwaenai unrhyw geffyl ond yr un a farchogai ef ei hun. Yr oedd ganddo fab, yntau'n RICHARD NANNEY, mewn urddau eglwysig (bu farw 1812), g r pur wahanol iddo ef, ond tebyg iddo yn ei osgo Biwritanaidd at gysegredigrwydd y Saboth, fel y tystia llythyr llym o'i eiddo (ysgrifennwyd 21 Ionawr 1799) at un o gyfreithwyr Caernarfon. Priododd CATHERINE NANNEY, merch Richard Nanney, â Richard Ellis o deulu Bodychen, ef hefyd yn glerigwr, ac olynnydd ei dad-yng-nghyfraith fel ficer Clynnog; ef oedd tad [David Ellis Nanney](#), y cwmsler enwog, ac un o hynafiaid Syr HUGH J. ELLIS NANNEY o'r Gwynfryn.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 165, 175, 343

Alumni Oxonienses, 1500-1714, 1051

Llawysgrifau Cynhaiarn yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (Coleg y Gogledd), 472-82

Henllys Manuscripts (Coleg y Gogledd) 1279-95

Welch piety, or, A farther account of the circulating Welch charity schools ... to which are annexed testimonials relating to the masters and scholars of the said schools; in a letter to a friend (1742-60), 1751-61

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820), 191-2

Cymru (O.M.E.), xi, 78-83

Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor 3704

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7328001](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

